# Cynnwys


Rhaglen 9.12.2013 .......... 2
4. Cofnodion Pwyllgor Trwyddedu Canolog 16.9.2013 .......... 5
5. Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu 30 9 2013 .......... 7
5. Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu 23.10.13 .......... 12

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00yb DYDD LLUN, 9 RHAGFYR 2013**

**10:00am MONDAY, 9 DECEMBER 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 29.11.13

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eddie Dogan Huw Edwards

Annwen Hughes Chris Hughes

W. Tudor Owen Ann Williams

Gethin G. Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eryl Jones-Williams Christopher O'Neal

Angela Russell Elfed Williams

**Llais Gwynedd (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Llywarch Bowen Jones Dilwyn Lloyd

Peter Read Gruffydd Williams

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Is-gadeirydd y Cyngor/Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

## RHAN 1

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Medi 2013 fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

(a) 30 Medi 2013
(b) 23 Hydref 2013

(copi yma – papur **gwyrdd**)

## RHAN 2

**1. HYFFORDDIANT ANFFURFIOL**

Sesiwn yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau'r aelodau wrth wasanaethu ar is-bwyllgorau trwyddedu.

**Mae'n hanfodol bod pob aelod o'r pwyllgor yn mynychu'r hyfforddiant cyn gwasanaethu ar is-bwyllgor i'r dyfodol.**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 16.09.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, Christopher O'Neal, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams,

**Hefyd yn Bresennol:** Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio), John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd W. Tudor Owen.

1. Ymddiheuriadau – Cyng Gruffydd Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2013, fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 5ed o Fehefin, 4ydd o Orffennaf a 31ain Gorffennaf 2013.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**6. LLYTHYR GAN CYNGOR DINAS BANGOR – ER TRAFODAETH**

Derbyniwyd llythyr gan Gwyn Hughes, Clerc Cyngor Dinas Bangor (dyddiedig 4.9.2013) yn datgan bod preswylwyr Bangor yn teimlo eu bont yn cael eu siomi gan benderfyniadau diweddar yr Is Bwyllgorau Trwyddedu i ganiatáu siopau bwyd i aros ar agor yn hwyr - hyn yn groes i gyngor yr Heddlu ac i wrthwynebiadau gan y Cyngor Dinas. Adroddwyd y byddai'r penderfyniadau hyn yn arwain at oblygiadau anochel i'r preswylwyr – cynnydd mewn sŵn, aflonyddwch, sbwriel, ymddygiad gwrth cymdeithasol, a thrais.

Sylwadau:
Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu yn datgan eu siom o gynnwys y llythyr. Cyfeiriwyd at y canllawiau a'r gweithdrefnau priodol sydd gan y Cyngor wrth weithredu penderfyniadau a phwysleisiwyd bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail y wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno iddynt.

Argymhellwyd anfon llythyr cyffredinol at Gyngor Dinas Bangor yn amlinellu'r drefn statudol sydd i benderfyniadau'r Is-bwyllgorau Trwyddedu. Angen eu hatgoffa hefyd o'u hawl i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, eu hawl i apêl ac eu hawl i wneud cais am adolygiadau.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith y byddai gan unrhyw aelod o'r pwyllgor oedd hefyd yn aelod o Gyngor Dinas Bangor fuddiant personol yn yr eitem hon o dan y Côd Ymddygiad. Serch hynny, roedd eithriad yn y Côd yn galluogi iddynt gymryd rhan llawn yn y drafodaeth bresennol.

**Penderfynwyd bod Gwenan Mai Williams a Siôn Huws, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yn drafftio ymateb i lythyr Cyngor Dinas Bangor yn nodi'r argymhellion uchod**

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10:30am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 30.09.13

**Yn bresennol**: Cyng Peter Read, (Cadeirydd), Cyng Eryl Jones-Williams, Cyng W Tudor Owen

**Hefyd yn bresennol:** PS483 Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru), Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), a Lowri H. Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – UNIVERSITY PLAICE, FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:** Ar ran University Plaice, Ffordd Caergybi, Bangor**:** Mr Mehmet Ali Usal (Deilydd y drwydded) a Miss Nia Haf Davies.

**Aelodau Lleol:** Cynghorydd June Marshall, Cynghorydd Mair Rowlands

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais, University Plaice, Ffordd Caergybi, Bangor i wyro'r drwydded eiddo i ganiatáu ymestyniad o awr ychwanegol, rhwng 23.00 a 03.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn ar gyfer gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Aelodau Lleol, Cyngor Dinas Bangor a phreswylwyr cyfagos. Nid oedd dim gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellir cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â theledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau. Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus ac atal trosedd. Nodwyd bod yr eiddo wedi ei leoli mewn ardal breswyl ac yn agos i Britannia Square lle mae pobl oedrannus a bregus yn preswylio.

Safbwynt yr Heddlu yw ei bod hi yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed teledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau ar nos Wener a nos Sadwrn yn unig oherwydd hyn.

Holiwyd os oedd cwynion sŵn o'r eiddo wedi eu derbyn. Nodwyd na derbyniwyd unrhyw wybodaeth am gwynion sŵn gan Gwarchod y Cyhoedd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
ii. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i grynhoi ei achos. Hysbysodd ei fod yn cytuno â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu. Pwysleisiodd mai cysondeb a thegwch ymysg busnesau Bangor a Bangor Uchaf oedd prif fwriad ei gais - rhaid cael cyfiawnder

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr:
Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol –

- gwrthwynebu'r cais oherwydd y niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a fyddai'n cael ei greu mewn ardal breswyl
- aelodau lleol yn pryderu'n fawr am oblygiadau'r cais yn enwedig wrth ystyried bod nifer o breswylwyr hŷn, oedrannus a bregus yn byw mewn fflatiau gerllaw a'r effaith y buasai caniatáu'r cais yn cael ar eu safonau byw
- cynnydd tebygol mewn sbwriel ar y stryd, gerddi a llwybrau
- pobl yn ymgynnull tu allan i'r eiddo tan oriau man y bore - hyn yn arwain at gynnydd mewn sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- diffyg adnoddau gan yr Heddlu i ymdopi â'r anrhefn
- pwysig gwahaniaethu rhwng ardaloedd preswyl ac ardaloedd masnachol
- dyletswydd y Cyngor yw lleihau trosedd a pharchu lles preswylwyr ac i'r pwyllgor ystyried pob cais yn unigol ar ei haeddiannau ei hunain.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD**
**Caniatáu gwyro trwydded eiddo UNIVERSITY PLAICE, FFORDD CAERGYBI, Bangor fel a ganlyn:**

- **Caniatáu ymestyniad o awr ychwanegol, rhwng 23.00 a 03.30 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn ar gyfer gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos.**
- **Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**

a) **Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
b) **Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
c) **Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy yn yr adeilad.**
d) **Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
e) **Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
f) **Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar**

**gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**

g) **Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**

h) **Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.**

i) **Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol).**

j) **Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**

**k) Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) bob nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn, am yr awr derfynol pryd y caniateir gweithgareddau trwyddedig o dan y Drwydded hon.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – KINGS ARMS, 206 STRYD FAWR, BANGOR

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:** Ar ran Kings Arms: Harry Evans (deilydd y drwydded) a Norman Georgenson

**Aelod Lleol:** Dim yn bresennol

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais Kings Arms, 206 Stryd Fawr , Bangor LL57 1NY, gan H. Evans Bangor Cyf. 6 Llys Cadwaladr, Maesgeirchen, Bangor.
Cyflwynwyd y cais am ymestyniad i'r oriau gweithgareddau trwyddedig o werthu alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio ac ychwanegu'r hawl i gael cerddoriaeth fyw ar yr eiddo. Gofynnwyd am ymestyniad hefyd i'r oriau mae'r eiddo yn agored i'r cyhoedd. Lleolir yr eiddo ymysg rhes o fusnesau a siopau ar y Stryd Fawr ym Mangor. Nid yw'r ymgeisydd yn gofyn am unrhyw ymestyniad i'r oriau terfyn; ond yn hytrach gofynnir am yr hawl i agor am 1 o'r gloch y prynhawn yn hytrach na 5 o'r gloch y prynhawn. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan berchnogion busnesau cyfagos.. Gwrthwynebwyd y cais ar sail y pedwar amcan trwyddedu sef atal trosedd ac anrhefn, diogelwch y cyhoedd, rhwystro niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed.

Nodwyd gan y gwrthwynebwyr fod yr eiddo yng nghanol y Stryd Fawr ym Mangor, yn y brif ardal siopa, ac nad ydyw oriau presennol y drwydded yn creu unrhyw drafferthion oherwydd nad ydyw'r eiddo yn agor tan 5 yn y prynhawn. Nodwyd yn ogystal fod problemau hanesyddol yn gysylltiedig â'r eiddo pan oedd y drwydded o dan reolaeth cwmni /unigolion gwahanol. Roedd yr eiddo yn arfer agor yn y prynhawn bryd hynny ac fe gafwyd llu o broblemau gydag ymddygiad

annerbyniol tu allan i'r eiddo trwyddedig yn ystod y prynhawn. Nid oes gan yr eiddo unrhyw le i gwsmeriaid ymgynnull i ysmygu ar wahân i'r Stryd Fawr, o flaen yr eiddo trwyddedig.

Nid oedd dim gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellir cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â goruchwylwyr drysau. Nid oedd sylwadau wedi dod i law gan yr Aelodau Lleol na Chyngor Dinas Bangor. Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
ii. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Hysbysodd deilydd y drwydded ei fod yn cytuno â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu gan ychwanegu nad oedd yn bwriadu trefnu miwsig byw ar y safle yn ystod y dydd. Eglurodd ei fod yn ceisio cynnal awyrgylch i siopwyr yn ystod yr oriau newydd gan gynnig te, coffi, brechdanau ac ati i'r cwsmeriaid. Ategodd mai'r Kings Arms yw'r unig dafarn ym Mangor sydd heb drwydded i agor am 1:00pm ac nad oedd ganddo unrhyw gysylltiad gyda cynddeilydd yr eiddo..

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr:

Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol –

- Pryder ynglŷn â diffyg ardal ddynodedig i gwsmeriaid ysmygu yn ystod tywydd oer a gwlyb. Y cwsmeriaid yn gwneud defnydd o gysgodi mewn mynedfeydd busnesau cyfagos.
- Cynnydd mewn pobl yn ymgynnull ar y stryd fawr tu allan i'r eiddo – dyma'r ardal fwyaf cul ar y stryd
- Pryder am iaith anweddus ac ymddygiad annerbyniol tuag at siopwyr.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD**

**Caniatáu gwyro trwydded eiddo, KINGS ARMS, 206 STRYD FAWR, BANGOR fel a ganlyn:**

- **Caniatáu hawl i ddeilydd y drwydded i agor am 1 o'r gloch y prynhawn yn hytrach na 5 o'r gloch y prynhawn , saith diwrnod yr wythnos**.

- **Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**

l) **Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir, gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol.**

m) **Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Wedi cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**

n) **Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) o <u>21:00 o'r gloch</u> hyd nes bydd y busnes yn cau bob nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn, os nad oedd caniatâd ysgrifenedig gan y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig oddi wrth yr Heddlu nad oes angen cyflogi staff o'r fath ar y nosweithiau hynny, a bod y Goruchwyliwr a'r Heddlu yn cytuno nad oes angen.**

- **Peidio chwarae miwsig byw rhwng 1pm a 5pm**
- **Staff y dafarn i sicrhau bod cwsmeriaid yn ysmygu o fewn ardal ddynodedig o flaen yr adeilad - gosod rhwystr i atal pobl rhag crwydro**
- **Staff y dafarn i sicrhau nad yw ysmygwyr yn amharu ar siopwyr a pherchnogion busnesau cyfagos**
- **Gosod blwch llwch yn yr ardal ddynodedig ar gyfer ysmygwyr ynghyd ag arwydd ymddygiad da**
- **Annog deilydd y drwydded i adeiladu cysgodfa i warchod yr ysmygwyr mewn tywydd garw**
- **Cynnig bod deilydd y drwydded yn ystyried goruchwylwyr drws rhwng 1 a 5pm.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 5:00pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 23.10.13

**Yn bresennol**: Cyng. Eryl Jones-Williams, Cyng. Ann Williams, Cyng. Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** PS483 Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru), Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Gweithrediaeth) – eitem 4 yn unig, Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), a Lowri H. Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

--------------------------

**EITEM 1.**

**CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – BELLA TAKEAWAY, FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:** Ar ran Bella Takeaway, 8 Ffordd Caergybi, Bangor**:** Mr Talal El-Arab (Deilydd y drwydded)

**Aelodau Lleol:** Cynghorydd June Marshall

**Eraill**: Ms M A G Davies, Mr Keith Marshall

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Mair Rowlands

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais, BellaTakeaway, 8 Ffordd Caergybi, Bangor i wyro'r drwydded eiddo i ganiatáu ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol i ddarparu lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Aelodau Lleol, Cyngor Dinas Bangor a phreswylwyr cyfagos. Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.
Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellwyd cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â theledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau. Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Safbwynt yr Heddlu yw ei bod hi yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed teledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau ar nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn yn unig oherwydd hyn.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i grynhoi ei achos. Hysbysodd ei fod yn cytuno â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu ac y buasai yn cyflogi goruchwyliwr ar y drysau pe bai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu mai dau gŵyn yn unig sydd wedi eu derbyn am yr eiddo ers 2006 gydag un yn unig yn ymwneud â niwsans cyhoeddus. Amlygwyd bod goruchwyliwr drysau yn rhoi sicrwydd diogelwch ychwanegol i'r ardal.

Amlygodd y swyddog cyfreithiol bod rhaid i'r panel bwyso a mesur tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol i'r eiddo, gan gynnwys unrhyw sylwadau at eiddo tebyg, ond wrth wneud penderfyniad, yr is-bwyllgor i ystyried yr eiddo perthnasol yn unig.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r gwrthwynebwyr holi'r Heddlu gan bwysleisio bod rhaid i'r sylwadau gael eu cyfeirio at Bella Takeaway yn unig.
Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â phatrymau cymdeithasu cwsmeriaid ar y stryd gan wneud sylw bod ciwio yn arwain at wrthdaro.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr:

Gwnaed cais gan y Cadeirydd i'r Aelod Lleol gyfeirio ei sylwadau at Bella Takeaway yn unig a pheidio cyffredinoli'r sefyllfa ym Mangor Uchaf.
Teimlai'r Aelod Lleol nad oedd ei sylwadau yn cael sylw na gwrandawiad teg a gwnaeth ddatganiad y buasai yn rhoi cwyn swyddogol i'r Swyddog Monitro am drefn yr Is Bwyllgor Trwyddedu. Gadawodd y cyfarfod am 12:15pm gan ei bod yn teimlo rhwystredigaeth i beidio cael cyfle i roi ei barn
Gwnaeth y swyddog cyfreithiol gais i'r Is - Bwyllgor wrando ar farn a sylwadau'r gwrthwynebwyr yn llawn cyn ystyried eu penderfyniad.

Rhoddwyd cyfle pellach i'r gwrthwynebwyr presennol rannu eu sylwadau.
Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol –

- gwrthwynebu'r cais oherwydd y niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a fyddai'n cael ei greu mewn ardal breswyl
- cynnydd tebygol mewn sbwriel ar y stryd, gerddi a llwybrau gan mai tuedd yw bwyta ar y stryd. Patrymau cymdeithasu yn newid.
- pobl yn ymgynnull tu allan i'r eiddo tan oriau man y bore - hyn yn arwain at gynnydd mewn sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Patrwm yn datblygu fel rhan o broses – un cais yn cael ei gymeradwyo ac o ganlyniad eraill yn cael eu cyflwyno

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.
Gwnaed sylw gan un aelod o'r cyhoedd nad oedd y panel wedi rhoi gwrandawiad teg i'r gwrthwynebwyr. Gofynnwyd i'r unigolyn adael y siambr.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid gohirio'r penderfyniad gan drefnu ail wrandawiad gyda phanel gwahanol.

**PENDERFYNWYD**
**Trefnu ail wrandawiad i wyro trwydded eiddo BELLA TAKEAWAY, 8, FFORDD CAERGYBI, BANGOR oherwydd:**

- **nid oedd modd dod i benderfyniad mewn dull priodol**
- **bod rhai elfennau o'r gwrandawiad yn ymddangos nad oedd tegwch llwyr wedi ei roi i'r cais**
- **rhaid sicrhau bod pob cais yn cael gwrandawiad teg.**

**Ymddiheurwyd i'r ymgeisydd.**

**EITEM 2.**

**CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – DEAN STREET CHIPPY, 27 DEAN STREET, BANGOR**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:** Ar ran Dean Street Chippy: Ms Joy Lovell (deilydd y drwydded) a Mr Graham Lovell

**Aelod Lleol:** Dim yn bresennol

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais Dean Street Chippy, 27 Dean Street, Bangor LL57 1UR, gan Ms Joy Lovell, 27 Garth Uchaf, Bangor.
Cyflwynwyd y cais am ymestyniad i'r oriau gweithgareddau trwyddedig safonol. Mae'r eiddo yn darparu lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Cyngor Dinas Bangor. Gwrthwynebwyd y cais ar sail amcan trwyddedu atal trosedd ac anrhefn, a niwsans cyhoeddus  Nid oedd cynrychiolaeth gan Cyngor Dinas Bangor yn y cyfarfod i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellir cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â goruchwylwyr drysau. Nid oedd sylwadau wedi dod i law gan yr Aelodau Lleol. Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
- Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Hysbysodd deilydd y drwydded ei fod yn cytuno â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu gan ychwanegu y byddai yn cytuno i glirio sbwriel o amgylch yr eiddo.
Amlygodd yr Heddlu nad oedd unrhyw achosion wedi eu derbyn yn erbyn yr eiddo sydd yn eithriad gan ystyried bod yr eiddo yn gyfagos i'r prif glwb nos ym Mangor. Amlygwyd hefyd nad oedd preswylwyr lleol wedi gwrthwynebu'r cais ac na ellir tystiolaethu bod y sbwriel yn gysylltiedig ar eiddo perthnasol.
Mae perthynas dda rhwng goruchwylwyr drysau 'Clwb Nos Peep' sydd yn cadw llygad ar yr eiddo. Mae'r trefniant i'w weld yn un effeithiol.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD**

**Caniatáu gwyro trwydded eiddo DEAN STREET CHIPPY, 27 DEAN STREET, BANGOR fel a ganlyn:**

- **Caniatáu hawl i ddeilydd y drwydded i agor hyd at 3:00 y bore, o ddydd Sul hyd nos Iau a hyd at 3:30 y bore nos Wener a nos Sadwrn**
- **Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**
  - **a) Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
  - **b) Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
  - **c) Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sydd yn yr adeilad.**
  - **d) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
  - **e) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
  - **f) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
  - **g) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**
  - **h) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio**
  - **i) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir, gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol.**
  - **j) Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu**

**neu'r awdurdod lleol. Wedi cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**

**k) Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) bob nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn am yr awr derfynol pryd y caniateir gweithgareddau trwyddedig o dan y drwydded hon.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**EITEM 3.**

**CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – SHAHIN KEBAB HOUSE, 368,STRYD FAWR, BANGOR**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:** Ar ran Shahin Kebab House: S Ali (deilydd y drwydded)

**Aelod Lleol:** Dim yn bresennol

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais Shahin Kebab House, 368 Stryd Fawr, Bangor LL57 1YE gan ddeilydd y drwydded, Shahin Kebab House Limited.
Cyflwynwyd y cais am ymestyniad i'r oriau gweithgareddau trwyddedig safonol. Mae'r eiddo yn darparu lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo. Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Cyngor Dinas Bangor. Gwrthwynebwyd y cais ar sail amcan trwyddedu atal trosedd ac anrhefn, a niwsans cyhoeddus Nid oedd cynrychiolaeth gan Cyngor Dinas Bangor yn y cyfarfod i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellir cynnwys amodau ar y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd mewn perthynas â goruchwylwyr drysau. Nid oedd sylwadau wedi dod i law gan yr Aelodau Lleol. Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
- Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Hysbysodd deilydd y drwydded ei fod yn cytuno â'r amodau a argymhellir gan yr Heddlu gan ychwanegu ei fod yn gwneud cais am yr oriau ychwanegol i adlewyrchu amser agor eu cystadleuwyr. Amlygodd bod rhaid cael tegwch i bawb.

Yr Heddlu yn adrodd mai tri achos yn unig oedd wedi eu derbyn yn erbyn yr eiddo yn y chwe blynedd ddiwethaf ac felly yn tystiolaethu bod cydweithio da gyda'r heddlu.
Amlygwyd hefyd nad oedd preswylwyr lleol wedi gwrthwynebu'r cais.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD**

**Caniatáu gwyro trwydded eiddo SHAHIN KEBAB HOUSE, BANGOR fel a ganlyn:**

- **Caniatáu hawl i ddeilydd y drwydded i agor hyd at 3:00 y bore, o ddydd Sul hyd nos Iau a hyd at 3:30 y bore nos Wener, nos Sadwrn a diwrnodau gŵyl.**
- **Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**
  - **l) Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
  - **m) Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
  - **n) Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy yn yr adeilad.**
  - **o) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
  - **p) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
  - **q) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
  - **r) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**
  - **s) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio**
  - **t) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir, gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol.**
  - **u) Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Wedi cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w**

**harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**

v) **Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) bob nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn am yr awr derfynol pryd y caniateir gweithgareddau trwyddedig o dan y drwydded hon.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ymgeisydd am ei barodrwydd i gyd weithio'n effeithiol gyda'r heddlu.

**EITEM 4.**
**CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – BRYN TEG HOLIDAY HOME PARK, LLANRUG LL55 4RE**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:** Ar ran Bryn Teg Caravan Park: Peter Williams, James McAllister, James Newan

**Aelod Lleol:** Dim yn bresennol

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais i amrywio trwydded eiddo Brynteg Holiday Home Park, Llanrug LL55 4RE.
Cyflwynwyd y cais ar ran yr ymgeisydd gan gwmni Cyfreithwyr Gamlins, i gyfuno tair trwydded gyfredol ar yr eiddo fel un drwydded eiddo. Manylion trwyddedig y tair trwydded gyfredol wedi eu cyflwyno.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan drigolion cyfagos ar sail amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.
Nid oedd y gwrthwynebwyr yn bresennol yn y cyfarfod i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad. Cadarnhawyd bod y gwrthwynebwyr wedi derbyn llythyr yn eu gwahodd i fynychu (dyddiedig 8.10.13).
Awgrymodd y swyddog cyfreithiol bod angen i'r panel ystyried parhau gyda'r gwrandawiad yn sgil absenoldeb y gwrthwynebwyr. Yn ychwanegol, nodwyd nad oedd yr Aelod Lleol yn bresennol yn y gwrandawiad ac nad oedd wedi cyflwyno sylwadau ar y mater. Dim sylw wedi ei dderbyn gan y Cyngor Cymuned.

Wedi derbyn tystiolaeth (copïau o'r llythyrau oedd yn gwahodd y gwrthwynebwyr i'r cyfarfod) penderfynodd yr Is Bwyllgor barhau gyda'r gwrandawiad.

Nid oedd dim gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub yn gwrthwynebu'r cais ond yn nodi amodau niferoedd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
- Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Bwriad deilydd y drwydded yw ildio tair trwydded a chynnig un fyddai yn haws i adlewyrchu oriau gwasanaeth y parc. Nododd y cyfreithiwr bod perchennog y parc yn berson cyfrifol iawn ac yn rhedeg safle moethus bychan ar gyfer preswylwyr preifat yn unig. Mae'r parc yn cyflogi oddeutu 71 person (yn ei anterth), yn darparu diogelwch o safon uchel ac ar gau i drigolion lleol. Amlygwyd bod rhaid cael goriad arbennig i gael mynediad. Prif newidiadau i'r drwydded yw defnydd o'r Bistro. Cadarnhawyd mai lle yn unig i fwydo 30 o bobl sydd yn y Bistro a'i fod wedi ei leoli chwarter milltir o'r fynedfa a thai cyfagos. Cadarnhawyd y bydd cerddoriaeth byw fel arfer yn gorffen oddeutu 10:45pm ac ychydig yn hwyrach ar ddyddiau gŵyl. Polisi'r parc yw cadw lefel sŵn yn isel gan barchu trigolion y carafanau a chymdogion. Amlygwyd hefyd bod perchennog y parc, sydd yn byw yn lleol, wedi cynnal trafodaethau cyffredinol gyda'r preswylwyr cyfagos ynglŷn â lefel sŵn.

Nododd y Cyfreithiwr y dylai'r gwrandawiad fod wedi ei gynnal o fewn 20 diwrnod o gyflwyno'r cais - 24 diwrnod gwaith yn yr achos yma. Derbyniwyd y sylw ac fel eglurodd y Rheolwr Trwyddedu bod ymgais wedi ei wneud i gynnal cyfarfod cyfamodi gyda'r gwrthwynebwyr – y gwrthwynebwyr wedi gwrthod. Derbyniwyd yr eglurhad.

Nododd cynrychiolydd ar ran yr Heddlu nad oedd sail iddynt wrthwynebu'r cais ac amlygwyd nad oedd unrhyw achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ei dderbyn yn erbyn y tri eiddo perthnasol ers dechrau casglu ystadegau yn 2006.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais.

**PENDERFYNWYD**

**Caniatáu gwyro trwydded eiddo BRYN TEG HOLIDAY HOME PARK, LLANRUG LL55 4RE**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn ei hysbysu o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd cyfarfod y bore am 11:30am a daeth i ben am 12:55pm

Dechreuodd cyfarfod y prynhawn am 2:00pm a daeth i ben am 4:40pm